pecynnu yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pecynnu i dalu'r gost net lawn o reoli gwastraff pecynnu a darparu gwybodaeth gyhoeddus am waredu gwastraff pecynnu. Bydd hyn yn arwain at gostau rheoli gwastraff pecynnu yn cael eu talu gan y cynhyrchwyr sy'n defnyddio ac yn cyflenwi pecynnu, gan ddefnyddio'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu." Bydd ffioedd y cynhyrchwyr yn cael eu casglu gan weinyddwr cynllun a benodir ar y cyd gan bedair llywodraeth y DU a fydd yn dosbarthu'r arian hwn i awdurdodau lleol. Bydd y cynllun ar gyfer pecynnu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gyrraedd targedau ailgylchu pecynnu a mabwysiadu label clir 'Ailgylchu/Peidiwch ag ailgylchu' fel ei bod yn haws i bobl wybod sut i ailgylchu eu gwastraff pecynnu.

Gyda'i gilydd, nod y mesurau hyn yw gweithredu fel cymhelliant clir i gynhyrchwyr leihau deunydd pacio diangen, dylunio deunydd pacio sy'n hawdd ei ailgylchu, annog y defnydd o ddeunydd pacio y gellir ei aildefnyddio ac y gellir ei ail-lenwi, a lleihau sbwriel pecynnu. Felly, mae cynllun EPR ar gyfer pecynnu yn bwysig wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ac adeiladu economi gryfach, wyrddach wrth i ni symud ymlaen tuag at Gymru sero net.

Er mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o wneud hynny ar y cyd â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Yn yr achos hwn, bydd yn galluogi un Offeryn Statudol ar draws y DU gyfan i wneud darpariaeth ar gyfer cynllun sy'n gweithredu ar draws y DU i gyd fel yr ymgynghorwyd arno, ac felly'n sicrhau cysondeb ar draws y DU. Felly mae'n briodol bod y Rheoliadau yn cael eu gwneud ar sail y DU gyfan.

Rhagwelir y bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol a disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Ionawr 2025. Bydd cadarnhad terfynol o osod y Rheoliadau yn amodol ar raglen ddeddfwriaethol gweinyddiaeth newydd y DU.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Mike Hedges, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister & Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0192/24

Llŷr Gruffydd AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru

25 Gorffennaf 2024

Annwyl Llŷr

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf wedi imi fod yn eich Pwyllgor ar 22 Mai. Rwy'n darparu'r eglurhad a'r wybodaeth bellach yr ydych wedi gofyn amdani.

1. Byddem yn croesawu rhagor o dystiolaeth i gefnogi eich honiad bod newid yn yr hinsawdd bellach wedi'i ymgorffori ar draws y Llywodraeth.

Rydym wedi gweithio ar draws y Llywodraeth erioed i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r agenda hon yn sicrhau bod hynny'n parhau. Mae pob aelod o'r Cabinet yn deall ein cyfrifoldebau cyfunol ac unigol mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Mae Atodiad 3 o Sero Net Cymru yn nodi'r prif bortffolios gweinidogol a chysylltiedig ar gyfer pob un o'r polisiau a'r cynigion ar gyfer bodloni Cyllideb Carbon 2, sy'n dangos sut mae newid yn yr hinsawdd yn ymdrech gyfan gan y Llywodraeth. Enghraifft arall o hyn yn ymarferol yw'r broses Asesiad Effaith Integredig a gafodd ei gwella yn ddiweddar, sy'n cynnwys effaith ar yr hinsawdd fel elfen hanfodol ar gyfer pob datblygiad polisi.

2. Hoffem i chi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad eich trafodaethau ar strwythurau llywodraethu mewnol yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ystod o fesurau i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n cael yr amser angenrheidiol gan aelodau'r Cabinet. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaeth y newid yn yr hinsawdd. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gael eu diweddarau ar y mater hwn.

3. Byddem yn croesawu esboniad o'r sail ar gyfer eich honiad bod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni CB2. Rhowch dystiolaeth i ategu'r farn hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 70

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae effaith ymdrech polisi yn cronni dros amser felly yn gyffredinol mae'n rhesymol disgwyl mwy o ostyngiadau mewn allyriadau blynyddol yn ddiweddarach yn y cyfnod cyllidebol nag ar y dechrau. Roedd gostyngiadau mewn allyriadau yn ystod blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn CB2 ychydig yn is na'r gostyngiad cyfartalog gofynnol o 37% i gyrraedd ein targed CB2 statudol, gan ddangos gostyngiadau o'r flwyddyn sylfaen o 36.3%¹ a 36.4% ar gyfer 2021 a 2022, yn y drefn honno. Mae'r ffaith bod 2021 a 2022 eisoes mor agos at y gostyngiad cyfartalog gofynnol yn awgrymu'n gryf y bydd y perfformiad yn y blynyddoedd dilynol yn ddigonol i gyflawni'r targed statudol ar gyfer CB2. Ar ben hynny, mae data ETS y DU ar gyfer 2023 yn dangos gostyngiad o 14% mewn allyriadau Cymru ar draws y sectorau perthnasol. Er nad yw'r gostyngiad hwn o bosibl yn barhaol ac y gallai ffactorau economaidd ehangach ei yrru, mae'r ffaith bod ETS y DU yn cwmpasu bron i hanner holl allyriadau Cymru yn awgrymu gostyngiad yng nghyfanswm allyriadau Cymru ar gyfer 2023 y tu hwnt i'r 36% a gyflawnwyd yn nwy flynedd gyntaf y gyllideb.

Yn ogystal, gallai penderfyniad Tata i gau Ffwrnais Blast 5 ym Mhort Talbot yn gynharach y mis hwn a Ffwrnais Chwyth 4 yn ddiweddarach eleni hefyd gael gryn effaith ar allyriadau Cymru yn ystod CB2 a thu hwnt. Nid yw'r gostyngiad hwn wedi'i gynllunio yn y ffordd y byddem wedi ei obeithio, rydym wedi dweud erioed ein bod yn credu y gallai ymgynghoriad rhwng y Cwmni ac undebau sicrhau pontio hirach, tecach i greu dur gwyrddach fyddai'n lleihau colli swyddi, fodd bynnag, pe byddai yn mynd ymlaen byddai yn cael effaith fawr ar ein hallyriadau. Mae hyn ar ben ein darpariaeth barhaus o Sero Net Cymru.

4. Rydym yn gofyn am eglurhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyrraedd ei nod o sicrhau gostyngiad cyfartalog mewn allyriadau o 44% yn erbyn y llinell sylfaen dros CB2.

Rydym yn gwneud pob ymdrech i berfformio'n well na'r targed statudol a dechrau CB3 o'r sefyllfa gryfaf bosibl. Ar yr un pryd, mae'n bwysig cydnabod bod allyriadau cyffredinol Cymru ar drugaredd nifer fach o allyryddion mawr - mae fy ymateb blaenorol ac effaith y penderfyniadau gan Tata yn dangos y pwynt hwn yn glir. Mae hyn yn golygu nad yw polisi da weithiau yn arwain at allyriadau is o reidrwydd, ac weithiau mae allyriadau'n gostwng am resymau heblaw ymyrraeth gan y llywodraeth. Rwy'n cydnabod yn llwyr fod hyn yn gwneud craffu yn hynod heriol, nid yn unig i'r Senedd a rhanddeiliaid allanol eraill ond hefyd yn fewnol wrth i ni ymdrechu i nodi'r llwybr gorau i sero net.

5. Hoffem i chi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar newidiadau mewn allyriadau ar draws pob sector rhwng 2021 a 2022, yn ogystal â'r gostyngiad mewn allyriadau yn 2022 yn erbyn 2021 a'r llinell sylfaen. Dylech gynnwys dadansoddiad o'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

Rwy'n cynnwys y dadansoddiad isod ac yn nodi eto bod y data allyriadau nwyon tŷ gwydr diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024 yn cynnwys diwygiadau i'r gyfres amser gyfan, gan gynnwys gwerthoedd 2021, sydd wedi'u hymgorffori yn y dadansoddiad.

Cafodd yr allyriadau uwch o'r sector cyflenwi tanwydd eu gyrru i raddau helaeth gan gynnydd mewn allyriadau hylsgi o burfeydd, a chafodd cynnydd yn y sector cyflenwi trydan ei yrru gan gynnydd mewn allyriadau o orsafoedd pŵer. Cafodd y cynnydd hwn ei wrthbwyso gan ostyngiad mewn allyriadau yn y sector diwydiant sy'n gysylltiedig â chynhyrchu haearn a dur, a llai o allyriadau yn y sector adeiladau a defnyddio cynnyrch, lle

¹ Roedd y data allyriadau nwyon tŷ gwydr a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024 yn cynnwys diwygiadau i'r gyfres amser gyfan, gan gynnwys gwerthoedd 2021. O ganlyniad, mae'r gostyngiad ar gyfer 2021 bellach yn 36% yn lle'r 35% a adroddwyd yn flaenorol ac a ddyfynnir yn eiddo hysbysu.

mae'n debygol bod y cyfuniad o 2022 yn flwyddyn boethaf erioed a phrisiau cynyddol nwy wedi arwain at newid ymddygiadol yn y defnydd o ynni preswyl.

Tabl 1: Allyriadau Cymru fesul sector ar gyfer 2022 a newid canrannol rhwng 2022 a blynyddoedd eraill (blwyddyn sylfaen a 2021)^{2,3}

Sector Allyriadau	2022 MtCO2e	% y newid o'r flwyddyn sylfaen	% y newid ers 2021
Amaethyddiaeth	5.6	-7.7%	-3.8%
Adeiladau a defnyddio cynnyrch	4.1	-37.5%	-11.1%
Trafnidiaeth ddomestig	5.7	-11.3%	3.2%
Cyflenwi trydan	6.8	-39.1%	8.8%
Cyflenwi tanwydd	3.4	-48.3%	32.5%
Diwydiant	9.5	-38.1%	-8.0%
Awyrennau a Llongau Rhyngwladol	0.4	-37.4%	29.4%
Defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) [Nodyn 1]	-0.9	137.0%	0.5%
Gwastraff	1.0	-71.8%	-9.1%
Cyfanswm	35.7	-36.4%	-0.1%

[Nodyn 1] Gan fod LULUCF yn tynnu allyriadau yn net, mae'r newidiadau canran yn dangos y newid cyffredinol ym maint yr allyriadau sy'n cael eu tynnu allan. Mae gwerthoedd newid % cadarnhaol yn cynrychioli cynnydd ym maint y tynnu allan.

6. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd amlwg tuag at weithredu argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn ystod gweddill tymor y Senedd hon. Rydym yn gofyn am sicrwydd gennych y byddwch yn gweithio gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau eu bod yn rhoi digon o flaenoriaeth i weithredu'r argymhellion hynny.

Mae argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer trafodaethau gweinidogol am gynnydd. Y llynedd fe wnaeth pob Gweinidog ystyried yr argymhellion sy'n berthnasol i'w portffolio a phenderfynu sut i ymateb. Rwy'n disgwyl i'r rhai a dderbyniwyd gael eu cyflwyno'n llawn ac y byddant yn parhau i weithio gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet drwy strwythurau llywodraethu mewnol diwygiedig, cyfarfodydd dwyochrog a sianeli eraill.

² At ddibenion adrodd, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu dyrannu i sectorau a elwir yn sectorau Ystadegau Allyriadau Tiriogaethol (TES). Mae'r rhain yn wahanol i'r sectorau yn Sero Net Cymru (CB2) a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (CB1).

³ Y blynyddoedd sylfaen ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yw 1990 ar gyfer carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd, ac 1995 ar gyfer nwyon wedi eu diwygiedig.

7. Hoffem i chi egluro pam na cheisiodd Llywodraeth Cymru farn Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ar y cynigion diweddaraf ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023).

Roedd adroddiadau ac argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn ystyriaeth berthnasol wrth ddatblygu polisi, dyluniad a datblygiad yr SFS fel y nodir yn Ymgynghoriad 2023. Wrth wneud hynny, cydbwysodd swyddogion ofynion lluosog y Cynllun yn erbyn amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

8. Cyn cwblhau'r SFS, rydym yn disgwyl i chi ystyried y ffordd orau y gallwch ddefnyddio arbenigedd y DU i sicrhau y gall yr SFS wneud y cyfraniad angenrheidiol at gyflawni cyllidebau carbon a thargedau newid hinsawdd.

Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU fel y bo'n briodol ac yn cyfarfod â swyddogion y Pwyllgor y mis hwn.

9. Byddem yn croesawu esboniad o'r cymhellion/mesurau yr ydych yn bwriadu eu rhoi ar waith i gefnogi busnesau fferm nad ydynt yn cymryd rhan yn yr SFS i leihau allyriadau a chynyddu dal carbon i'r eithaf.

Bwriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw bod yn hygyrch i bawb, gan ddarparu lefel briodol o gymorth i annog a galluogi ffermydd yng Nghymru i leihau allyriadau a chynyddu eu hatafael carbon. Mae'r Cynllun wedi'i osod yn erbyn y llinell sylfaen reoleiddiol sydd wedi'i sefydlu ar gyfer pob fferm yng Nghymru. Disgwylir i'r gallu i drosglwyddo gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, er enghraifft drwy Cyswllt Ffermio, barhau i fod ar gael i bob ffermwr.

10. Bydd y map llwybr yn cynnwys cerrig milltir allweddol a thargedau interim i hwyluso a chefnogi craffu ar gynnydd tuag at gyflawni, fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad yn 2023.

Bydd y Strategaeth Wres i Gymru a'n map a'n cynllun gweithredu llwybr datgarboneiddio preswyl sydd ar ddod yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi datgarboneiddio ein cartrefi – gostwng allyriadau, gwella canlyniadau iechyd a diogelu ein biliau ynni rhag y cynnydd prisiau byd-eang. Ar ôl ystyried cyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, y Grŵp Gweithredu ar Ddatgarboneiddio, adborth rhanddeiliaid o ymgynghoriad y Strategaeth Wres a thystiolaeth ehangach, rydym yn datblygu cyfres o bolisiâu a chynigion a fydd yn cael eu gosod ochr yn ochr â gofynion allweddol Llywodraeth y DU mewn meysydd o bwerau a gadwyd yn ôl. Byddwn yn nodi'r cerrig milltir allweddol a'r gostyngiad mewn allyriadau rydym yn anelu at ei gyflawni trwy ymdrechion cyfunol Llywodraethau Cymru a'r DU, ein partneriaid cyflawni a'r gymdeithas ehangach.

11. Rydym yn gofyn am esboniad o'r gwelliannau a wnaed i'r system MRV ers dechrau'r cyfnod cyllideb carbon presennol. Rydym yn gofyn am sicrwydd y bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau bod y system MRV yn gallu olrhain gweithrediad polisiâu yn Sero Net Cymru a'u heffeithiolrwydd wrth leihau allyriadau, fel yr addawyd gan Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer y system MRV yn CB2 rydym wedi mabwysiadu egwyddorion craidd tebyg i CB1: system dair haen o ddangosyddion a system goleuadau traffig i nodi cynnydd. Ers dechrau

Tudalen y pecyn 73

CB2 rydym wedi mireinio ein dull o olrhain polisiâu nad oes targedau ar gael iddynt yn gyhoeddus a meintiol trwy neilltuo sgôr golau traffig i'r cyfeiriad cyffredinol, ynghyd â sylwebaeth ansoddol ar gynnydd. Mae hyn yn adlewyrchu natur llawer o bolisiâu Sero Net Cymru yn well.

12. Gofynnwn i chi rannu'r dangosyddion perfformiad ar gyfer CB2 gyda'r Pwyllgor ac ymrwymo i'w cyhoeddi i wella tryloywder.

Rwy'n cytuno'n llwyr bod tryloywder yn bwysig wrth ddwyn y Llywodraeth i gyfrif ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol trwy nid yn unig gyhoeddi asesiad bob pum mlynedd, ond hefyd gyhoeddi dangosyddion perfformiad Haen 1 blynyddol, yn ôl sector ac is-sector. Wrth gwrs, mae haenau ychwanegol o fanylion yr ydym wedi'u datblygu ar gyfer defnydd mewnol, ond fel y nodais pan siaradais â'r Pwyllgor, mae'r dangosyddion ychwanegol hyn yn gyfyngedig o ran eu natur i ba ddata perthnasol ac ystyrlon sydd ar gael a phryd. Nid wyf wir yn credu y byddai cyhoeddi'r rhain yn arwain at well craffu, penderfyniadau neu ganlyniadau gwell, a gall y ffocws ychwanegol ar y rhain, o ystyried eu cyfyngiadau, dynnu sylw aelodau'r Senedd a'r Llywodraeth o'r gwaith hanfodol o weithredu ar yr argyfwng hinsawdd. Mae Cymru Sero Net yn glir o ran pa bolisiâu yr ydym yn disgwyl eu defnyddo er mwyn cyflawni ein targedau a chyfrifoldebau'r Cabinet.

13. Byddem yn croesawu eich barn ar sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi gwaith craffu parhaus ar gynnydd yn well wrth gyflawni CB2 a CymruSero Net yn ystod gweddill y Chwched Senedd.

Mae sero-net yn gyfrifoldeb Cabinet a rennir ac felly mae'n cael ei ffederaleiddio ar draws Llywodraeth Cymru, ac mae Cymru Sero Net yn amlinellu'n glir pa Ysgrifennydd Cabinet sy'n gyfrifol am bob polisi wrth gyflawni CB2. Er bod gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith rôl arbennig o bwysig i'w chwarae wrth graffu ar gynnydd, efallai y bydd yn gynhyrchiol i'r Senedd ehangu ei dull gweithredu a rhoi ffocws tebyg i holl bortffolios Ysgrifennydd y Cabinet.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad
a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

5 Awst 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am bresenoldeb Llywodraeth Cymru yn Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd ar Ynys Manaw ar 20 a 21 Mehefin. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chynrychioli gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles AS. Hoffwn dynnu eich sylw at [ddatganiad](#) y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Roedd thema'r Uwchgynhadledd yn canolbwyntio ar 'Ddatgloi Cyfleoedd Economaidd a Chymdeithasol Ynni Adnewyddadwy ar draws yr Ynysoedd hyn'. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i sicrhau trosglwyddiad teg a fforddiadwy i ddyfodol carbon isel, gan gynnwys ein nodau ar gyfer y datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo cyhoeddus, Trydan Gwyrdd Cymru, i sicrhau gwerth o'r system ynni a helpu i gyrraedd ein targedau ynni adnewyddadwy. Tynnwyd sylw hefyd at brosiect Morlais Cymru, sef un o'r araeau llanw cyntaf yn y byd i gael caniatâd llawn, yn ogystal â chyfleoedd gwynt ar y môr ac ar y tir.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 75



Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/6069/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). Fel y gwyddoch efallai, cyflwynwyd y Bil i Senedd y DU ar 4 Medi 2024, gweler y Bil a'r Nodiadau Esboniadol wedi'u hatodi. Mae'r datganiad polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil ar gael yn [Water \(Special Measures\) Bill: policy statement - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad ym maniffesto'r Llywodraeth Lafur. Mae'r Bil yn gam cynnar i wella ansawdd dŵr, sy'n destun pryder mawr i'r cyhoedd. Mae'r Bil arfaethedig yn ymateb i fethiannau canfyddedig eang yn y ffordd y mae'r sector dŵr wedi delio â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio.

Mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r diwydiant dŵr, sy'n fater datganoledig, ac ag ansolfedd, sy'n fater sydd wedi'i gadw yn ôl. Rwyf wedi cytuno y bydd rhai o gymalau'r Bil yn berthnasol i Gymru ac wedi ceisio pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i rai'r Ysgrifennydd Gwladol. Rwy'n credu y bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac yn help i orfodi gofynion rheoleiddio yn y sector dŵr, gan wella perfformiad cwmnïau dŵr yng Nghymru.

Yn dilyn gosod y Bil yn Senedd y DU, rwy'n cynnig dechrau'r broses cydsynio deddfwriaethol ac o blaid cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 76
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod y Bil wedi'i ddatblygu'n gyflym, byddaf i a fy swyddogion yn parhau i graffu ar y mesurau a gynigir ac yn ystyried yr holl effeithiau posibl i Gymru drwy gydol y broses Seneddol.

Rwy'n awyddus i gysylltu'n fuan â chi am y mater, felly os hoffech drafod hyn ymhellach, rhowch wybod i mi. Byddaf hefyd yn codi'r mater hwn ar lawr Senedd Cymru'n fuan.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of several fluid, overlapping strokes that form a stylized representation of the name.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs



Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

03/09/2024

Ym mis Gorffennaf 2024, cyflwynodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad ar Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys 19 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
-------------------------	----------

Ymateb i'r 19 argymhelliad	5
---	----------

Argymhelliad 1	5
Argymhelliad 2	5
Argymhelliad 3	6
Argymhelliad 4	6
Argymhelliad 5	7
Argymhelliad 6	7
Argymhelliad 7	7
Argymhelliad 8	8
Argymhelliad 9	8
Argymhelliad 10	8
Argymhelliad 11	9
Argymhelliad 12	10
Argymhelliad 13	10
Argymhelliad 14	10
Argymhelliad 15	11
Argymhelliad 16	11
Argymhelliad 17	12
Argymhelliad 18	12
Argymhelliad 19	13

Atodiad 1: Aelodaeth o'r Ford Gron Weinidogol, y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon a'r Grwpiau Swyddogion.	14
---	-----------

Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr yn ffermio*. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn benllanw dau ymgynghoriad blaenorol, dau gam o gyd-ddylunio, a Chynllun Amlinellol a gyhoeddwyd yn 2022.

Yn 2023 daeth Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn gyfraith a oedd yn sefydlu'r pedwar amcan Rheoli Tir yn Cynaliadwy (SLM) a fydd yn sail i bolisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd dadansoddiad ffurfiol o'r 12,000 a mwy o ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cadw ffermwyr yn ffermio*, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r dadansoddiad hwnnw ym mis Gorffennaf 2024. Yn yr ymateb hwnnw gwnaethom ailadrodd bod Llywodraeth Cymru wedi clywed yr adborth gan y diwydiant, a'n bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried yr heriau sy'n weddill cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Bord Gron Weinidogol yr SFS, sydd wedi'i ddylunio i gefnogi'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac sy'n cael ei gadeirio ganddo. Pwrpas y Ford Gron yw adolygu ac ystyried y blaenoriaethau ar gyfer Haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol yr SFS, ynghyd â Rheolau'r Cynllun (gan gynnwys y gofynion 10%), y meini prawf i fod yn gymwys a dulliau talu. Bydd y Ford Gron yn adolygu'r agweddau hyn yng nghyd-destun yr SLM a'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Caiff y Ford Gron ei chefnogi gan ddau is-grŵp: sefydlwyd y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon i ystyried y dystiolaeth all fod yn sail i weithredoedd amgen ar gyfer dal carbon o fewn Haen Cyffredinol y Cynllun. Yn bwysig, mae'r rhain yn Weithredoedd ar wahân i'r rhai sydd wedi'u cynllunio i reoli stociau carbon pwysig sydd eisoes wedi'u sicrhau yn ein pridd. Mae'r Grŵp Swyddogion wedi cael y cyfrifoldeb i adolygu agweddau ar ddyluniad y Cynllun ac i adrodd yn ôl i'r Ford Gron, gan nodi meysydd lle ceir cytundeb, meysydd sydd angen rhagor o waith a phwyntiau y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt i'w datrys. Mae aelodau'r Ford Gron Weinidogol a'r Grŵp Swyddogion wedi'u nodi yn Atodiad 1 o'r ymateb hwn.

Mae'r grwpiau rhanddeiliaid hyn yn gweithio'n ddi-oed drwy gydol yr haf, ac mae Llywodraeth Cymru yn hynod ddiolchgar am eu hymrwymiad parhaus a phawb sy'n gysylltiedig.

Lle bo'n bosibl, rydym yn ymdrechu i gadw'r diwydiant yn ymwybodol o'r cynnydd parhaus, er mwyn dangos gwerth y dull hwn o gydweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf roeddem yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd pwysig a wnaed o ran cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o fewn y taliad cynnal a chadw cynefinoedd gyda'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol, fel y cyfeirir ato yn argymhelliad 10 o'r adroddiad hwn.

Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar ddyluniad y Cynllun nes bod y gwaith trafod hwn wedi dod i ben. Felly, er bod cynnydd yn cael ei wneud ar lawer o'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, nid yw'n bosibl rhoi ymatebion pendant i rai argymhellion.

Rydym wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae rhai argymhellion yn cael eu derbyn mewn egwyddor hyd nes y bydd y trafod parhaus hwn wedi dod i ben ond byddant yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau'r rhanddeiliaid. Bydd allbynnau Bord Gron Weinidogol yr SFS a'r is-grwpiau yn cael eu defnyddio i gefnogi Gweinidogion Cymru yn eu penderfyniadau terfynol ar ddyluniad y Cynllun, i sicrhau bod yr SFS yn cyflawni ein hymrwymadau cenedlaethol a rhyngwladol, ynghyd ag amcanion SLM Deddf Amaethyddiaeth (Cymru).

Ymateb i'r 19 argymhelliad

Argymhelliad 1

1. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wneud y canlynol:

- darparu amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o ran datblygu'r Cynllun, gan gynnwys cyhoeddi allbynnau'r ffrydiau gwaith amrywiol sy'n cael eu datblygu gan y Ford Gron Weinidogol, ac
- ymrwymo i roi diweddariadau tymhorol i'r Senedd ar y cynnydd tuag at ddatblygu'r Cynllun terfynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

2. Rydym yn disgwyl cyhoeddi manylion terfynol y cynllun yn haf 2025, gyda'r Cyfnod Pontio yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.
3. Mae ymgysylltu â Bord Gron Weinidogol yr SFS a'i his-grwpiau (y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon a'r Gweithgor Swyddogion) yn parhau. Mae'n debygol y bydd y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon yn dod i ben yr hydref hwn a bydd adroddiad byr yn cael ei gyhoeddi o ganlyniad. Bydd gwaith y Ford Gron Weinidogol a'r Gweithgor Swyddogion yn debygol o barhau hyd at ddechrau Cyfnod Pontio'r SFS a thu hwnt. Nid ydym yn rhagweld y bydd y grwpiau hyn yn cyhoeddi unrhyw allbynnau pellach gan y bydd canlyniadau'r gwaith trafod hwn yn arwain yn uniongyrchol at gyhoeddi'r cynllun terfynol.
4. Rydym yn hapus i ymrwymo i adrodd yn rheolaidd i'r Senedd pan fo diweddariadau allweddol yn y broses ddylunio. Y disgwyl yw y bydd o leiaf un diweddariad yn cael ei ddarparu cyn diwedd y flwyddyn hon.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 2

5. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gynyddu ymdrechion dros y misoedd nesaf i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch rheolau'r Cynllun, a hyrwyddo manteision integreiddio coed a chynefinoedd dros dro mewn system gynhyrchiol.

Ymateb: Derbyn

6. Mae'r Ford Gron Weinidogol a'i his-grwpiau yn parhau i ystyried yr heriau sy'n weddill ac i gwblhau manylion Rheolau a Chamau'r Cynllun. Bydd y trafodaethau cysylltiedig â ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i nodi manylion y cynllun a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y bydd angen i ymgeiswyr ei wneud i fod yn gymwys i gael taliadau yn dilyn ar ôl i'r trafodaethau hyn ddod i ben.
7. Gan weithio gyda Cyswllt Ffermio ac eraill, byddwn yn dal ati i hyrwyddo manteision gorchudd coed a choetir ar ffermydd a chyfleoedd i drosglwyddo gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar weithgarwch ar ffermydd sy'n eu gwneud yn fwy effeithlon ac sy'n

ategu'r canlyniadau a'r gweithredoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer yr SFS. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cymorth ar gyfer plannu coed, yn wirfoddol, cyn cyflwyno'r SFS.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 3

8. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ddewisiadau amgen posibl yn lle'r gofyniad gorchudd coed wrth iddynt godi.

Ymateb: Derbyn

9. Ar hyn o bryd mae'r Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon yn archwilio'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chamau dal carbon ychwanegol neu amgen y gellid eu cynnwys yn yr SFS fel Gweithred Gyffredinol. Mae priodoldeb y camau hynny i gyd-destun Cymru, a hyd a lled y cyfle i'r Gweithredoedd hynny gael eu cyflwyno ledled Cymru yn ystyriaethau allweddol.
10. Rydym yn rhag-weld y bydd adroddiad byr yn cael ei gyhoeddi ar ganfyddiadau'r Panel yn ddiweddarach eleni, a byddwn yn falch o ddiweddarau'r Pwyllgor maes o law.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 4

11. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau y gall unrhyw ddewis amgen yn lle'r gofyniad gorchudd coed gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau dymunol targed plannu coed Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

12. Mae targedau plannu coed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar argymhelliad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ar hyn o bryd. Mae'r targedau plannu coed yn rhan o'r camau sydd eu hangen i ddal digon o garbon, ynghyd â gweithredoedd i leihau allyriadau ar draws pob sector, fel bod modd cyrraedd Sero Net erbyn 2050. Bydd swyddogion yn parhau i edrych ar ffyrdd o wneud plannu coed yn rhan integredig o sector amaethyddol ffyniannus.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 5

13. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ofyn am gyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ynghylch unrhyw opsiwn amgen a gynigir gan yr is-grŵp Bord Gron Weinidogol yn lle'r gofyniad plannu coed, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn opsiwn hyfyw ar gyfer atafaelu mwy o garbon, yn unol â'r llwybr cytbwys i sero net.

Ymateb: Derbyn

14. Byddwn yn ymgysylltu â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU, ynghyd â sectorau eraill, i drafod ein llwybr at sero net cyn Cyllideb Garbon 3 yn 2026.
15. Rydym yn parhau i weithio ar y polisiau a'r cynigion a nodir yn Sero Net Cymru wrth inni gwblhau ein gwaith ar Gyllideb Garbon 2 ac rydym yn parhau i archwilio polisiau'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a defnydd tir, megis yr SFS, wrth inni edrych ymlaen at y targedau a nodir yng Nghyllideb Garbon 3. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein targedau ar blannu coed ac unrhyw ddulliau dal carbon eraill yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gyflawnadwy ac o fewn llwybr cytbwys i sero net.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 6

16. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau y bydd unrhyw ddewis amgen yn lle'r gofyniad rheoli cynefinoedd yn helpu i gyflawni ymrwymadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig targed 2030.

Ymateb: Derbyn

17. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gofynion rheoli cynefinoedd yr SFS yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur gan gynnwys y targed 30 erbyn 30 a'r targedau domestig sydd ar ddod a fydd yn cael eu cyflwyno gan y Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Trefniadau Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth. Mae'r cyd-destun pwysig hwn yn rhan o ystyriaethau'r Ford Gron Weinidogol a Grwpiau eraill yr SFS wrth ystyried dyluniad y cynllun.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 7

18. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y gofyniad rheoli cynefinoedd, neu unrhyw ddewis amgen yn lle'r gofyniad, yn helpu i greu'r ystod amrywiol o gynefinoedd sydd eu hangen i adfer natur.

Ymateb: Derbyn

19. Drwy ymgysylltu'n barhaus â'r Ford Gron Weinidogol a grwpiau eraill, byddwn yn sicrhau bod y gofyniad rheoli cynefinoedd yn helpu i greu ystod amrywiol o gynefinoedd sydd eu hangen ar gyfer adfer natur.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 8

20. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod pob opsiwn ar gyfer creu cynefinoedd dros dro yn sicrhau gwerth am arian a'r canlyniadau bioamrywiaeth a fwriedir.

Ymateb: Derbyn

21. Drwy'r camau nesaf o ddylunio'r cynllun byddwn yn ystyried yr opsiynau yn erbyn yr amcanion SLM, gan gynnwys cynnal a gwella ecosystemau cydnerth sy'n hanfodol ar gyfer bioamrywiaeth.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 9

22. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i'r Gweithredoedd Cyffredinol i fynd i'r afael â rhwystrau i fynediad, neu i symleiddio Gweithredoedd, yn gwanhau uchelgais amgylcheddol y Cynllun.

Ymateb: Derbyn

23. Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau amgylcheddol drwy'r SFS, o gofio mai'r argyfwng natur a hinsawdd yw'r prif risg i'n gallu i gynhyrchu bwyd yn y tymor hir. Rhaid i'r Cynllun hefyd gyfrannu at yr Amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy sy'n cynnwys ystyried yr uchelgeisiau amgylcheddol.

24. Adfer a diogelu ein hecosystemau naturiol yw'r amddiffyniad gorau sydd gennym wrth addasu i'r newid yn yr hinsawdd a lleihau ei effeithiau.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 10

25. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod y Cynllun yn gwobrwyo ffermwyr yn deg am gynnal a chadw tir SoDdGA o dan y Gweithredoedd Cyffredinol. Dylai ymrwymo i gynnwys tir SoDdGA yng nghydran cynnal cynefinoedd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.

Ymateb: Derbyn

26. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod yr SFS yn gwobrwyo ffermwyr yn deg am gynnal tir SoDdGA o fewn yr Haen Gyffredinol. Cyhoeddais yn ddiweddar, yn dilyn cyngor ac ystyriaeth bellach gan y Ford Gron Weinidogol, ein bod wedi penderfynu y gellir cynnwys ardaloedd SoDdGA yng nghategori cynnal a chadw perthnasol (cynefin neu goed) y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.
27. Bydd cynnwys SoDdGA yn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn cydnabod ymdrechion ffermwyr i reoli'r ardaloedd hyn, er ein lles ni i gyd. Bydd yn helpu i sicrhau bod y safleoedd hyn yn rhan o reolaeth ehangach ffermydd, gan daro cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a gweithredoedd sy'n gwella rhagolygon cynefinoedd natur a dŵr croyw. Bydd hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) tharged 30 erbyn 30.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 11

28. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu amserlen amlinellol ar gyfer y camau sy'n weddill o ran datblygu'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

Ymateb: Derbyn

29. Ein bwriad yw gweithio gyda'r Ford Gron Weinidogol a'r Grŵp Swyddogion i gyflwyno ystod o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, yn ogystal â gweithredoedd sy'n adlewyrchu amcanion blaenoriaethau'r llywodraeth. Y bwriad yw sicrhau bod Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol sy'n flaenoriaeth ar gael ar gyfer dechrau Cyfnod Pontio'r SFS. Byddant yn aml yn adeiladu o gynlluniau a chymorth sydd eisoes yn bodoli ac sydd ar gael yn ystod y Cyfnod Paratoi.
30. Er enghraifft, yn ddiweddar, rwyf wedi lansio'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS). Mae'n gynllun cydweithredol sy'n galluogi ffermwyr, rheolwyr tir ac eraill i weithio gyda'i gilydd ar lefel tirwedd, dalgylch neu ar draws Cymru. Bydd y cynllun yn darparu cyllid ar gyfer cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur ar y raddfa briodol, gan dargedu camau gweithredu ac ymyriadau i wella a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.
31. Mae INRS yn gynllun trosiannol sydd wedi'i gynllunio i helpu cyfranogwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio wrth baratoi at Weithredoedd Cydweithredol yr SFS.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 12

32. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi'r meini prawf y bydd yn eu defnyddio i benderfynu pa Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i'w blaenoriaethu i'w cyflwyno ar ddechrau'r Cynllun.

Ymateb: Derbyn

33. Bydd y fframwaith ar gyfer y Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol yn cael ei ddatblygu gyda chyfranogiad Bord Gron Weinidogol yr SFS a'i his-grwpiau dros y misoedd nesaf. Wrth ystyried hyn, bydd y trafodaethau'n cael eu llywio gan ddyluniad y cynllun sy'n esblygu, i nodi lle mae Gweithredoedd Gweithredol a Chydweithredol yn galluogi ffermwyr i symud ymlaen y tu hwnt i'r Gweithredoedd Cyffredinol, y dadansoddiad o'r ymgynghoriad a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru megis ymrwymïadau polisi a chyfreithiol.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 13

34. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet sicrhau bod digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol a fydd yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys Gweithredoedd sydd â'r nod o wella cyflwr SoDdGA, gan gydnabod bod SoDdGA yn allweddol i gyflawni'r targed 30 erbyn 30.

Ymateb: Derbyn

35. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y Gweithredodd Dewisol a Chydweithredol wrth gyflawni canlyniadau amgylcheddol a byddwn yn datblygu'r rhain gyda rhanddeiliaid gan gynnwys drwy'r Ford Gron Weinidogol. Bydd y Gweithredoedd Cydweithredol yn benodol yn allweddol i gefnogi graddfa'r dirwedd, y dulliau gweithio mewn partneriaeth sydd eu hangen i gynyddu graddfa a chyflymder i gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth, gan gynnwys y targed o 30 erbyn 30.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 14

36. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet wneud y canlynol:

- adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau gwaith a wneir i archwilio'r potensial i gynnwys cnydau biomas fel Gweithred Opsiynol, ac
- egluro a yw cnydau biomas wedi'u diystyru fel Gweithred Opsiynol, ac os felly, egluro'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

Ymateb: Derbyn

37. Mae'r Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon yn archwilio'r dystiolaeth i gefnogi Gweithredoedd Eraill neu Ychwanegol i ddal a storio carbon, ac mae hyn yn cynnwys y potensial i gynnwys cynyddau biomas.
38. Er ei bod yn rhy gynnar i wneud sylwadau ar ganfyddiadau'r Panel, gallaf gadarnhau nad yw cynyddau biomas wedi'u diystyru fel Gweithred Ddewisol bosibl.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 15

39. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro sut y bydd yn sicrhau bod cyllideb y Cynllun yn cael ei dyrannu'n briodol ar draws yr haenau Cyffredinol, Opsiynol a Chydweithredol er mwyn sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl.

Ymateb: Derbyn

40. Bydd y dull talu, a fydd yn cynnwys rheoli'r gyllideb, yn cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid gan gynnwys drwy'r Ford Gron Weinidogol. Y bwriad yw sicrhau bod y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn darparu lefel o incwm sy'n helpu busnesau fferm yng Nghymru i fod yn fwy cydnerth gan helpu i gynnal ffabrig amaethyddiaeth Cymru a'n cymunedau gwledig. Bydd hefyd yn ategu'r incwm ar gyfer y ffermydd hynny sy'n dymuno symud ymlaen ymhellach gyda gwelliannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
41. Gall cydbwysedd a phwysigrwyd y gweithredoedd hyn newid dros amser, a bydd angen ei adlewyrchu yn y gwaith o reoli'r gyllideb o fewn y Cynllun. Nid yw'n bosibl pennu'r cydbwysedd hwn hyd nes y penderfynir ar Ddyluniad y Cynllun.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 16

42. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i sicrhau bod 'gwerth cymdeithasol' yn cael ei ymgorffori yn y dull talu ar ddechrau'r Cynllun.

Ymateb: Derbyn

43. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn cael ei ymgorffori yn y dull talu ar gyfer y Cynllun.
44. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn archwilio'r dystiolaeth a fydd yn sail i gynigion ar sut rydym yn ymgorffori gwerth cymdeithasol yn y dull talu. Byddwn yn rhannu ein syniadau wrth iddynt ddatblygu gyda'r Ford Gron Weinidogol i helpu i lunio'r cynigion terfynol.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 17

45. Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi ei syniadau presennol ynghylch dull 'Taliadau am Ganlyniadau', ac
- ymrwymo i ystyried cynnwys 'Taliadau am Ganlyniadau' fel rhan o adolygiad o'r Cynllun yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

46. Byddwn yn ystyried mecanweithiau 'Taliadau am Ganlyniadau' fel mecanwaith cyflawni arloesol posibl ar gyfer Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol lle gallai hyn fod yn briodol a chynnig gwerth am arian.

47. Bwriedir cynnwys rhai o egwyddorion dull 'Taliadau am Ganlyniadau' yn y Gweithredoedd Cyffredinol. Er enghraifft, mae Cynnal a Chadw Cynefin sef Gweithred Gyffredinol 7 yn cynnwys disgrifiad o 'Ganlyniadau mesuradwy' y byddai angen i'r ffermwr eu cyflawni. Yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid, mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i fod yn fwy hyblyg na chynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol a oedd yn cynnwys niferoedd stocio anhyblyg. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r ffermwyr wneud penderfyniadau mwy priodol yn lleol yn seiliedig ar y tymor ac amodau'r ddaear.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 18

48. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro hyd a lled rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun a darparu manylion unrhyw asesiad cost cysylltiedig. Os nad oes asesiad cost wedi'i gynnal eto, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad.

Ymateb: Derbyn

49. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fod yn rhan o broses ddylunio'r SFS a bydd yn rhan o'i gyflawni, er enghraifft wrth ddarparu cyngor a chymorth wrth reoli safleoedd dynodedig. Wrth i'r trafodaethau a rhanddeiliaid barhau i gwblhau dyluniad y Cynllun, ni allaf wneud sylw ar hyn o bryd ar natur na hyd a lled terfynol cyfranogiad CNC na'r costau sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd hyn yn rhan o'r achos busnes a fydd yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru y flwyddyn nesaf.

Goblygiadau ariannol: Dim

Argymhelliad 19

50. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymrwymo i sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ychwanegol a/neu fodloni unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau sy'n deillio o'r Cynllun.

Ymateb: Derbyn

51. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig ail-lunio'r sefydliad fel y gall weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael iddo, gan gynnwys unrhyw rolau gyda'r SFS, sydd wedi bod dan bwysau fel sawl rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.

52. Mae'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys o fewn CNC, yn cael eu hystyried yn barhaus wrth inni barhau i gwblhau dyluniad polisi a darpariaeth weithredol yr SFS.

Goblygiadau ariannol: Dim

Atodiad 1: Aelodaeth o'r Ford Gron Weinidogol, y Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon a'r Grwpiau Swyddogion.

Partner	Bord Gron Weinidogol	Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon	Gweithgor Swyddogion
Afonydd Cymru			✓
Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth	✓		✓
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru	✓		✓
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain	✓		
Cymdeithas Milfeddygon Prydain (Cymru)	✓		
Cymdeithas Ganolog y Pristwyr Amaethyddol			✓
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	✓	✓	✓
Confor	✓	✓	✓
DPJ Foundation	✓		
Dŵr Cymru			✓
Undeb Amaethwyr Cymru	✓	✓	✓
Grŵp Bywyd Gwyllt a Chynghori Ffermydd Cymru			✓
Game & Wildlife Conservation Trust			✓
Hybu Cig Cymru	✓	✓	✓

Cynrychiolydd ffermwyr annibynnol	✓	✓	
Cynrychiolydd milfeddygon annibynnol			✓
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	✓	✓	✓
Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol			✓
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol			✓
Cyfoeth Naturiol Cymru	✓	✓	✓
Rhwydwaith Ffermio Natur- Cyfeillgar	✓	✓	✓
Y Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar			✓
Cymdeithas y Pridd	✓*	✓*	✓
Sustainable Food Trust			✓
Tirweddau Cymru			✓
Cymdeithas y Ffermwyr Tenant	✓		✓
Cyswllt Amgylchedd Cymru			✓
Hybu Cig Oen a Chig Eidion Cymru	✓		✓
Comisiynydd y Gymraeg			✓

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru			✓
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	✓*		✓
Coed Cadw	✓*		✓
World Wild Fund for Nature			✓
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru	✓		✓
Grŵp Cynghair Garddwriaeth Cymru			✓

*Hefyd yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon